

# Newyddion

[www.aber.ac.uk/cy/ibers](http://www.aber.ac.uk/cy/ibers)

## GWYDDOR ANIFEILIAID

Hydref 2008

## Biofoeseg Anifeiliaid - Modiwl newydd i ystyried goblygiadau moesegol defnyddio anifeiliaid

Mae defnyddio anifeiliaid fel ffynhonnell fwyd, mewn addasiadau genynnol i astudio clefydau dynol, fel gweithwyr megis cŵn tywys ar gyfer y dall, neu fel cwmnïaeth, yn dod ag amrywiaeth o broblemau moesegol yn eu sgil. O fis Medi 2008, bydd y materion hyn yn cael sylw mewn modiwl newydd a fydd yn dwyn y teitl Biofoeseg Anifeiliaid, ac fe fydd ar gael i holl fyfyrwyr trydedd flwyddyn Gwyddor Anifeiliaid.



Yn ogystal â chloriannu goblygiadau moesegol defnyddio anifeiliaid, fe fydd yn ystyried sut y mae agweddau tuag at anifeiliaid wedi newid ers oes y cerrig, yn myfyrio ynghylch sut y gellid bod yn fwy llym wrth wneud penderfyniadau moesegol, ac yn asesu'r canlyniadau posibl pe gwneid penderfyniadau moesegol gwael.

Dywed Michael Rose, rheolwr y cwrs Gwyddor Anifeiliaid: "Mae rhai'n credu bod cymdeithas yn mynd yn fwyfwy difoeseg. Mewn geiriau eraill, y mae pobl bellach wedi rhoi'r gorau i feddwl o ddifrif ynghylch materion moesegol gan eu

bod yn ystyried y materion hynny'n rhy ddyrs, a chan na wyddant am unrhyw un arall sy'n meddwl amdanynt beth bynnag. Mae eraill yn dadlau nad oes y fath beth â safonau moesegol absoliwt, a bod popeth yn gymharol. Yn anffodus, canlyniad tebygol hyn yw na fydd neb yn herio agendâu'r pwerus (y cyfoethog, llywodraethau, corfforaethau a'u tebyg). Amcan y modiwl hwn yw hyfforddi myfyrwyr i feddwl yn bwyllog am benderfyniadau moesegol caled sy'n ymwneud ag anifeiliaid, a hynny er mwyn eu cymhell i wneud eu penderfyniadau eu hunain."

## Llwyddiant Ysgoloriaethau



**Dyfarwyd ysgoloriaeth NFU De Orllewin Lloegr/Dairy Crest sy'n werth £1,000 i'r fyfyrwraig Gwyddor Anifeiliaid, Maria Brown (a welir yn y llun gyda Bob Beavan o gwmni Dairy Crest).** Yr oedd gan y beirniaid ddiddordeb arbennig yn ei thraethawd hir blwyddyn olaf a oedd yn archwilio'r berthynas rhwng crynodiad wrea mewn llaeth a ffrwythlondeb gwartheg godro. Mae Maria hefyd yn rownd derfynol cystadleuaeth myfyriwr y flwyddyn Cymdeithas Frenhinol Ffermwyr Llaeth

Prydain. Ar ben hynny, bu bron i Maria ennill gwobr Dr Richard Phillips, a roddir i'r myfyriwr amaethyddiaeth gorau yng Nghymru. Ond colli a wnaeth yn y diwedd i fyfyrwraig arall o Aberystwyth, sef Beth Harrison sy'n astudio Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid. Yr hyn a greodd argraff ar feirniaid cystadleuaeth Richard Phillips oedd uchelgais Beth i ddod ag amaethyddiaeth at bobl ifanc, a hynny er mwyn hybu gwell dealltwriaeth o faterion amaethyddol. Llongyfarchiadau calonnog i'r ddwy ohonynt!

## Rhestr Cysiau

Animal Science  
Animal Behaviour  
Agriculture with Animal Science  
Equine and Human Sports Science  
Equine Science  
Marine & Freshwater Biology  
Zoology  
Zoology & Microbiology

### Interested?

**Contact** Fay Hollick: 01970 624471  
Email: [ffh@aber.ac.uk](mailto:ffh@aber.ac.uk)

# Cerpyn koi yn mynd â bryd Hefin

**Mae Hefin Jones, myfyriwr Gwyddor Anifeiliaid sy'n ei ail flwyddyn, wedi ennill bwrsariaeth gan Urdd Lifrai Cymru i astudio cerpynnod 'koi' yn Japan.**



Bydd Hefin yn mynd i Japan yn Awst 2008 i archwilio effaith caledrwydd dŵr ar dyfiant cerpynnod koi fel rhan o'i draethawd estynedig ar gyfer ei flwyddyn olaf. Yna fe fydd yn dychwelyd i'r DU i barhau gyda'i astudiaethau yn Aberystwyth.

Mae cerpynnod koi yn cael eu dosbarthu yn ôl eu maint a'u lliw ac y mae'n bosibl y gellid

cael prisiau uchel am bysgod trwm. Gall maint a lliw'r pysgod hyn gael eu heffeithio gan yr amodau y maent yn tyfu ynddynt. Mae'r traethawd hwn yn estyniad o ddi-ddordeb a oedd gan Hefin cyn dod i'r Brifysgol ac y mae'n edrych ymlaen yn fawr at ymweld â chynefin y koi yn Japan.

# Ceffylau mewn Cewynnau

**Gwelwyd nifer o geffylau mewn cewynnau yng Nghanolfan Geffylau Llest tra roedd Ellie Brunt a Stephanie Tinsley yn gwneud eu gwaith ymchwil ar faethiad ceffylau.** Yr oeddynt yn archwilio effaith burum ac ymarfer corff ar ymddygiad a fflora microbig eu coluddion. Yr oedd yn rhaid cael cewynnau er mwyn casglu'r ysgarthion a gynhyrchwyd yn ystod cyfnod yr arbrawf. Ymdopodd y ceffylau yn dda â'r ymyrraeth hwn.

Ond er ei fod yn golygu llai o waith carthu, bydd yn rhaid aros i gael gweld a fydd y syniad o geffylau yn gwisgo cewynnau yn cydio ai peidio!



# Nawdd ar gyfer traethodau estynedig Gwyddor Llaeth

**Mae'r Brifysgol wedi ennill nawdd o oddeutu £1,500 y flwyddyn gan sefydliad Barham, a hynny er mwyn ariannu traethodau blwyddyn olaf mewn prosiectau sy'n ymwneud â ffermio llaeth.**


Dywed Dr Michael Rose, rheolwr y cwrs: "Rydym wrth ein bodd gyda'r wobwr hon. Mae pob myfyriwr Gwyddor Anifeiliaid yn cael cyfle i gynllunio, cynnal, dadansoddi ac ysgrifennu adroddiad am arbrawf yn eu blwyddyn olaf. Bydd yr arian yma yn ehangu'r posibilïadau ac yn caniatáu i draethodau mwy cymhleth a chostus gael eu cyflawni mewn gwyddor llaeth."



# Astudio yn America

Bydd Christopher Whitten, sy'n fyfyrwr Gwyddor Anifeiliaid, yn mynd i Brifysgol Purdue, yn Illinois yn yr UD ar gyfer ei astudiaethau y semester nesaf. Tra yno, fe fydd yn astudio nifer o fodiwlau Gwyddor Anifeiliaid, ac fe fydd

# Garleg i atal gwartheg rhag torri gwynt



**Mae'n bosib fod gwyddonwyr yn IBERS sy'n edrych ar yr effaith y mae gwartheg a defaid sy'n torri gwynt yn ei gael ar gynhesu byd-eang, wedi dod o hyd i'r ateb - ychwanegu**

**garleg at eu bwyd.** Mae arbenigwyr yn honni bod gwartheg yn gyfrifol am oddeutu 3% o nwyon tŷ gwyr Prydain. Fodd bynnag, dengys canlyniadau cychwynnol yr astudiaeth tair blynedd hon fod porthiant sy'n cynnwys garleg yn gallu lleihau'r nwy a gynhyrchir o hyd at 50%.

Dywed arweinydd y prosiect, yr Athro Jamie Newbold, fod mathau newydd o borthiant a gynhyrchir o echdynion planhigion, a glaswellt gyda chynnwys siwgr uwch, yn cael eu datblygu i ddatrys y broblem. "Dengys canlyniadau cychwynnol fod echdynion garleg yn gallu lleihau faint o fethan a gynhyrchir gan anifeiliaid o'r hanner", meddai. "Mae garleg yn ymosod yn uniongyrchol ar y bacteria yn y coluddion sy'n cynhyrchu methan". Ychwanegodd y byddai profion yn cael eu gwneud i sicrhau na fyddai'r garleg yn cael effaith ar y cig a'r llaeth, fel y câi ar anadl yr anifeiliaid.

# Pod-ddarlledu

**Maeunoddarlithwyr Gwyddor Anifeiliaid, Dr Basil Wolf, wedi bod yn arbrofi gyda phod-ddarlledu - yn recordio ei ddarlithoedd fel y gellir gwrando arnynt eto ar 'Blackboard',**



**sef amgylchedd dysgu rhithiol ar-lein y Brifysgol.** Mae'r holl sleidiau 'PowerPoint' a ddangosir mewn darlithoedd eisoes i'w cael ar 'Blackboard'. Felly, bydd myfyrwyr yn gallu ail-greu ei holl ddarlithoedd yn eu cyfanrwydd, a bydd hynny yn eu helpu i ddeall y deunydd yn well.

Mae Dr Wolf yn darlithio mewn Ymddygiad Anifeiliaid, Geneteg Anifeiliaid a Chynnyrch Anifeiliaid. Mae ei gydweithwyr yn aros i weld canlyniadau ei arbrawf er mwyn gweld a allai hyn fod yn fuddiol ym mhob maes arall ar y cwrs Gwyddor Anifeiliaid.

y marciau a gaiff yno yn cyfrif tuag at ei radd yma yn Aberystwyth. Gall unrhyw un o fyfyrwyr Gwyddor Anifeiliaid fynd i astudio dramor am semester, a hynny naill ai yn y UD neu yn Ewrop.